Dinas a Sir Abertawe

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu Polisi Cyngor y Dyfodol a Thrawsnewid

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 24 Gorffennaf 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P B Smith (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| L S Gibbard | J A Hale | T J Hennegan |
| E T Kirchner | M B Lewis | S Pritchard |
| A H Stevens | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Caritas Adere | Gweithrediaeth Gyfreithiol |
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Vicky Thomas | Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): L J Tyler-Lloyd

---

**9 Derbyn Datgeliadau o Fuddiannau Personol a Rhagfarnol.**

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw gysylltiadau.

**10 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo a llofnodi cofnodion cyfarfod Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi Trawsnewid a Chyngor y Dyfodol a gynhaliwyd ar 26 Mehefin 2018 fel cofnod cywir.

**11 Cynllun Gwaith 2018 - 2019.**

Rhoddodd Rheolwr Rhaglen Abertawe Gynaliadwy gyflwyniad ar gynllun gwaith 2018/19, a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- **Diben y PDP**
  Pwyllgorau'r cyngor yw Pwyllgorau Datblygu Polisi gyda'r diben o ddatblygu polisïau corfforaethol y cyngor i'w hystyried a'u mabwysiadu gan y Cabinet a/neu'r cyngor fel y bo'n briodol'.

- **Pwyllgor heddiw**
  - Cytuno o'r diwedd ar amodau a thelerau cynllun gwaith y PDP - elfennau a'u cwmpas

- Trafod arweinwyr y pwyllgor ar gyfer meysydd allweddol y rhaglen waith.

- **Meysydd Cynllun Gwaith y cytunwyd arnynt ym mis Mehefin**
  - Contractau AD Gweithwyr (diffiniadau)
  - Strategaeth a Chynllun Datblygu Sefydliadol
  - Oriau Gweithio Hyblyg
  - Cydgynhyrchu
  - Cynllun Gweithredu Caffael
  - Cyfathrebu'r Cyngor
  - Ap Dinasyddion (cysylltu â chyfathrebu uchod)

- **Beth sydd ei angen ar bob eitem?**
  - Cwmpas
  - Deall y broblem cyn dod o hyd i ateb
  - Allbwn a gwerth ychwanegol o'r pwyllgor - cofio diben y PDP
  - Arweinydd/Hyrwyddwr y PDP
  - Dewisiadau neu gynnyrch terfynol/ganlyniad

- **Camau Nesaf**
  - Rhaglen mewn sesiynau gwaith/cwmpasu ar gyfer pob elfen o'r cynllun gwaith y cytunwyd arni
  - Anfon dogfennau allweddol ymlaen llaw e.e. copi o'r Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol, brîff gwaith hyblyg
  - Cyfarfodydd un i un/cyfarfodydd â'r Swyddog Arweiniol y cytunwyd arno ac Arweinydd/Hyrwyddwr y PDP

Gofynnodd y pwyllgor gwestiynau i'r Swyddog Cyflwyno a ymatebodd yn briodol. Roedd y cwestiynau a'r trafodaethau'n canolbwyntio ar y canlynol: -

Contractau AD Gweithwyr / Strategaeth a Chynllun Datblygu Sefydliadol/Oriau Gweithio Hyblyg

- Gofynnwyd am adroddiad ysgrifenedig am y diffiniadau/mathau gwahanol o gontractau.
- Awgrymwyd y dylid edrych ar gadw staff fel rhan o'r Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol
- Gofynnwyd am y diweddaraf o ran data gwaelodlin ar gontractau gweithwyr
- Bydd rhaid edrych ar y tri maes sef Contractau AD Gweithwyr, y Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol ac Oriau Gweithio Hyblyg gyda'i gilydd gan eu bod wedi'u cysylltu'n gynhenid.

Cydgynhyrchu

- Diffiniad a chwmpas cydgynhyrchu
- Meysydd addas posib ar gyfer cydgynhyrchu

Cyfathrebu'r cyngor/ap Dinasyddion

- Rhaid edrych ar y rhain gyda'i gilydd gan eu bod yn gorgyffwrdd

**Penderfynwyd:**

1) Darparu/cyflwyno adroddiad ysgrifenedig i'r pwyllgor am y mathau amrywiol o gontractau gweithwyr, i gynnwys diffiniad ar bob math o gontract;

2) Rhoi'r diweddaraf i'r pwyllgor ar brosiect y data a'r gwaith gwaelodlin ar gontractau gweithwyr;
3) Dosbarthu'r Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol a'r brîff oriau gweithio hyblyg i'r pwyllgor;
4) Trefnu sesiwn waith cyn cynnal y pwyllgor ym mis Medi er mwyn cynnal ymarfer cwmpasu ar Gontractau AD Gweithwyr, y Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol ac Oriau Gweithio Hyblyg;
5) Cymeradwywyd yr aelodau arweiniol ar gyfer pob maes isod: -

| **Prosiect/Tasg** | **Aelodau Arweiniol** |
|---|---|
| • Contractau AD Gweithwyr (diffiniadau)<br>• Y Strategaeth a'r Cynllun Datblygu Sefydliadol<br>• Oriau Gwaith Hyblyg | Paulette Smith ac Erika Kirchner |
| • Cydgynhyrchu | Louise Gibbard, Sam Pritchard, Andrew Stephens a Terry Hennegan (o ran unrhyw gydgynhyrchu ym maes tai) |
| • Cynllun Gweithredu Caffael | Erika Kirchner |
| • Cyfathrebu'r cyngor<br>• Ap Dinasyddion | Mike Lewis ac Andrew Stephens |

6) Trefnir cyfarfodydd â swyddogion arweiniol ac aelodau arweiniol ar gyfer pob maes gwaith.

Daeth y cyfarfod I ben am 2.50 pm

**Cadeirydd**